# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


06/07/2022

## Diweddariad gan y Corff Llywodraethol / Governing Body Update

Annwyl disgyblion, rhieni a theuluoedd Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn,
Ar ran y Corff Llywodraethol (CLl), roeddem yn awyddus i gysylltu â chi cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Fel i chi eisoes yn ymwybodol, bydd Mr Davies yn ein gadael ar ddiwedd Awst 2022. Yn ystod y pedair blynedd mae Mr Davies wedi bod yma rwyn siŵr byddwn yn cytuno ei fod wedi arwain yr ysgol o nerth i nerth. Yn gwneud ein rôl fel CLl yn hawdd. Yn bersonol, mae wedi bod yn bleser cyd-weithio gyda Mr Davies. Rydym ‘oll wedi setlo mewn i adeilad newydd sbon (hen bryd), wedi derbyn arolwg arbennig o dda ynghyd a goresgyn nifer o heriau annisgwyl ar hyd y ffordd. Covid a storm Eunice i enwi ambell un. Fel CLl hoffwn ddiolch i Mr Davies am y sylfaen mae wedi ei greu ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo ym mhennod nesaf ei yrfa. Gyda’n gilydd mae nawr angen i ni recriwtio pennaeth newydd i barhau gyda gwaith arbennig Mr Davies.

Ein bwriad yw penodi pennaeth mor gynted â phosib. Er hyn, rydym am sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir. Felly'r gobaith yw cael pennaeth newydd mewn lle erbyn Ionawr 2023, ar y cynharaf. Mae’r broses wedi dechrau ers sawl wythnos, a thymor nesaf byddwch chi fel disgyblion Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn ein cefnogi. Rydym yn edrych ymlaen at gyd-weithio gyda chi yn dilyn gwyliau’r haf.

Yn y cyfamser, mae Miss Roberts wedi cytuno i fod yn bennaeth dros-dro ar gyfer tymor yr Hydref. Miss Roberts yw ein dirprwy bennaeth a phennaeth dros-dro rhan amser presennol. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gyd-weithio gyda Miss Roberts blwyddyn nesaf. Bydd Miss Roberts yn cael ei chefnogi gan ddirprwy bennaeth dros-dro. Hoffwn ddanfon ein dymuniadau grau at Miss Roberts gan yn ystod gwyliau’r haf bydd yn priodi ac yn dychwelyd atom ym Medi fel Mrs Davies. Llongyfarchiadau a phob lwc Miss Roberts! Hoffwn hefyd dymuno’n dda i Simon sydd hefyd yn priodi dros yr haf. Pob lwc a llongyfarchiadau Simon!

Hoffwn ddymuno pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd ar fin symud tuag at bennod nesaf eu haddysg. Rydym wir yn edrych ymlaen at glywed am eich llwyddiannau a pheidiwch anghofio amdanom ym Mharc y Tywyn. Rydym yn gyffrous i groesawi ein disgyblion meithrin a bydd yn dechrau eu taith gyda ni blwyddyn nesaf.

Fel i chi yn gwybod bydd Miss Lowri Evans a Mrs Rachel Rees yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Rydym yn diolch iddynt a dymuno pob am y dyfodol. Bydd Miss Lowri Howells a Miss Leah Hughes yn ymuno ar teulu tymor nesaf ac rydym yn edrych ymlaen at groesawi’r ddwy.
Yn olaf, ar ran y CLl, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i’r holl staff, disgyblion, rhieni, CRhA, cyd-lywodraethwyr a phawb sydd yn gysylltiedig a chymuded yr ysgol. Hefyd diolch arbennig i Mrs

Gower, ein clerc, am ei holl gwaith tu ôl i'r llenni. Rydym yn dymuno haf hapus a seibiant haeddiannol i chi gyd. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gyd-weithio gyda chi gyd tymor nesaf.

Pob hwyl,
Mathew Davies
(Cadeirydd y Corff Llywodraethol)

****************************************

Dear pupils, parents and families of Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn,
On behalf of the Governing Body (GB), we were eager to get in touch with you before the end of the academic year.

As you all know, Mr Davies will be leaving us as of the end of August 2022. During the four years Mr Davies has been with us, I am sure we would agree that he has successfully led the school from strength to strength. Making our role as a GB very easy. Personally, Mr Davies has been a pleasure to work alongside. We have all settled into a fantastic new building (which was well overdue), undergone a very good inspection and overcome far too many unexpected challenges along the way. Covid and storm Eunice to name a few. As a GB we thank Mr Davies for the foundations he has created and wish him well for the next chapter in his career. Together we now have the tough job of recruiting a new headteacher to carry on with the excellent work Mr Davies has done.

Our aim is to appoint a new headteacher as soon as possible. However, we want to make sure that we make the correct decision. Therefore, the likelihood is we will have a new headteacher in post as of January 2023, at the earliest. The process has been underway for some weeks and next term, you as pupils of Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn will become involved to support us in the decision making. We look forward to working with you after the summer holidays.

In the interim, Miss Roberts has kindly agreed to become acting headteacher for the Autumn term. Miss Roberts is our current deputy-head and part time interim head, and we look forward to continuing working with Miss Roberts throughout the new academic year. Miss Roberts will be supported by an internal interim deputy-head. We would also like to send our congratulations to Miss Roberts as during the summer holidays she will be getting married and, on her return, will then be known as Mrs Davies. Llongyfarchiadau a phob lwc Miss Roberts! We would also like to extend our congratulations to Simon who is also getting married during the summer. Pob lwc a llongyfarchiadau Simon!

We would like to wish all our year 6 pupils well as you move on to the next phase of your education. We certainly look forward to hearing about your successes in the future and please do not forget about us in Parc y Tywyn. We are excited to welcome and meet the nursery pupils who will begin their journey with us next year.

As you are aware, Miss Lowri Evans and Mrs Rachel Rees will also be leaving us at the end of term. We thank them and wish them all the best for the future. Miss Lowri Howells and Miss Leah Hughes will be joining us next term and we look forward to welcoming them both.

Finally, on behalf of the GB, we would like to take this opportunity to thank all staff, pupils, parents, PTA, fellow governors and everybody associated with Teulu Tywyn. Also, a special mention to Mrs Gower, our clerk, for all her work behind the scenes. We wish you all a great summer and a well-deserved break. We look forward to continuing working with you next term.

Pob hwyl,
Mr Mathew Davies
(Chair of Governing Body)